# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I'R CABINET**
24/11/2015

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Dyfed Edwards

**Pwnc:** Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015-16 - meysydd Plant a Phobl Ifanc, Diogelu, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol

**Swyddog cyswllt:** Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

---

## Y penderfyniad a geisir

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

## Barn yr aelod lleol

Nid yw'n fater lleol.

---

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015-16. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc, Diogelu, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol sy'n rhan o bortffolio'r aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Gareth Thomas
Y Cynghorydd Mair Rowlands
Y Cynghorydd Peredur Jenkins
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

1.2 Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y Cynllun Strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

**2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3.0 Prif negeseuon**

3.1 Mae holl dimau gwasanaeth y Cyngor wedi dechrau adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac yn ystyried a oes lle i wella. Y rhain yw egwyddorion Ffordd Gwynedd. Mae'r timau yn edrych ar ddiffinio eu pwrpas drwy lygaid pobl Gwynedd fel bod modd cadw'r ffocws ar ein cwsmeriaid. Ar yr un pryd maent wedi bod yn edrych ar sicrhau bod y pethau cywir yn cael eu mesur ac mae gwaith pellach i'w wneud ar hyn. Mae hyn yn drefn newydd i swyddogion y Cyngor, ac yn rhan o roi Ffordd Gwynedd ar waith. Mae'r aelodau Cabinet unigol yn gyfrifol ac yn atebol am berfformiad y timau gwasanaeth sydd yn rhan o'u portffolio. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o berfformiad y meysydd hynny.

3.2 Eisoes, cyflwynwyd perfformiad y meysydd eraill, sef Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai, yr Amgylchedd a hefyd Gofal mewn adroddiad trosolwg i'r Cabinet ar 3 Tachwedd 2015.

3.3 Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r newid diwylliant sydd yn digwydd ymysg gwasanaethau'r Cyngor er mwyn edrych ar ein gwasanaethau trwy lygaid y dinesydd. Gwelir bod gwaith ar y prosiectau strategol yn symud ymlaen fel ag a gynlluniwyd yn y Cynllun Strategol, gyda cherrig milltir wedi eu gosod a chynnydd yn cael ei fesur yn eu herbyn.

3.4 Mae'r adroddiadau ar brosiectau'r Cynllun Strategol yn dangos gwaith rheoli perfformiad trylwyr, gan adnabod rhwystrau, rhagweld risgiau rhag cyflawni. Yn fwy na dim mae'r aelodau cabinet wedi bod yn canolbwyntio ar gael y gorau i bobl Gwynedd, sydd wedi golygu gwneud penderfyniadau i newid pwyslais prosiect o dro i dro e.e. yn maes Y Gymraeg.

3.5 Mae arwyddion cynnar yn dangos fod adolygiadau gwasanaeth Ffordd Gwynedd yn arwain at newidiadau ac edrychwn ymlaen at glywed rhagor am hyn dros y cyfnod nesaf.

3.6 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu'r gwaith caled sydd yn digwydd yng Ngwynedd drwy 'Her Gwynedd' er mwyn ymgysylltu gyda'r cyhoedd ar y cynigion ar doriadau. Bydd hyn yn ein galluogi i roi ystyriaeth i'r hyn y maent wedi ei ddweud wrthym cyn gwneud penderfyniadau.

3.7 Drwy Her Gwynedd, rydym hefyd yn cymryd y cyfle i drafod gyda phobl y posibilrwydd o fod yn cymryd cyfrifoldeb dros rai o wasanaethau'r Cyngor.

**4.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol**

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015-16 yn y meysydd Plant a Phobl Ifanc, Diogelu, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol. Mae'r prosiectau ym mherchnogaeth yr aelodau Cabinet unigol.

**4.1 Plant a Phobl Ifanc**

4.1.1 Y Cynghorydd Gareth Thomas

**P1 Strategaeth Ansawdd Addysg**

**Pwrpas y prosiect hwn yw paratoi a datblygu Strategaeth Ansawdd Addysg fydd yn sail i wella a chysoni safonau addysg ar draws y Sir.**

Mae canlyniadau haf 2015 wedi amlygu bod angen canolbwyntio ar godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4 a sicrhau gwell cysondeb ar draws ysgolion. Mae'r adran hefyd wedi adnabod yr angen i godi safonau Mathemateg a Saesneg yn y sir. Bydd gwaith pellach yn cael ei gomisiynu trwy gynllun busnes Gwasanaeth Ysgolion Gogledd Cymru (GwE) er mwyn ymateb i hyn. Fel cam nesaf, mae angen gwneud gwaith ar ddatblygu tracio a thargedu effeithiol, yn benodol gyda'r ysgolion uwchradd, er mwyn cynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 +. Mae cynllun gweithredu yn ei le ar gyfer rhoi'r strategaeth ar waith, ac yn canolbwyntio ar gynyddu a chysoni safonau addysg, creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, a sicrhau isadeiledd cadarn a hyfyw ar gyfer ysgolion i'r dyfodol.

**P2 Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth**
**Pwrpas y prosiect hwn yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau.**
Mae cynnydd y prosiect yn unol â'r rhaglen waith a'r cerrig milltir sydd wedi'u gosod. Mae adroddiad i faes arweinyddiaeth wedi'i gomisiynu, a'r ymgynghorwyr wedi'u penodi ar gyfer y gwaith. Bydd yr adroddiad ynghyd ag argymhellion i'w hystyried yn cael eu cyflwyno i'r Adran Addysg ddiwedd mis Tachwedd 2015. Bydd yr adroddiad yn cynnwys sylw penodol i unrhyw effaith cadarnhaol y mae ysgolion neu adeiladau newydd yn ei gael ar safonau a deilliannau. Bydd GwE hefyd yn adrodd ar effaith hyfforddiant arwain a rheoli ar brosesau cynllunio ac arfarnu ysgolion yn dilyn eu hymweliadau â'r ysgolion yn nhymor yr hydref. Yn ogystal, mae rhaglen benodol o weithdai datblygu arweinyddiaeth wedi'i chynnal gan GwE, gyda 27 o'r darpar arweinwyr wedi'u cofrestru o Wynedd.

**Rhaglen creu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol**
**Pwrpas y rhaglen yma (prosiectau P3-8)yw datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol. Bydd cyflawni'r rhaglen yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg, a gwella profiadau i blant a phobl ifanc.**
Mae'n bwysig ystyried deilliannau'r rhaglen yma yn y tymor hir, a'r ffordd ymlaen gyda'r rhaglen ar ôl 2018.

**P3 Ysgol Bro Llifon**
**Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol newydd yn sgil penderfyniad y Cyngor i gau ysgolion y Groeslon, Carmel a Bron y Foel.**
Agorodd Ysgol Bro Llifon yn swyddogol ddydd Llun, 7 Medi 2015. Mae trafodaethau gyda materion ôl-ddefnydd adeilad Carmel a Bronyfoel yn parhau. Bydd ymweliad i weld campws newydd yr ysgol yn cael ei drefnu ar gyfer aelodau yn fuan. Mae'r prosiect yma wedi'i gwblhau yn llwyddiannus.

**P4 Ysgol Hafod Lon**
**Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol arbennig i ddisgyblion Meirionnydd a Dwyfor a hynny yn wyneb y penderfyniad i gau'r Ysgol Hafod Lon bresennol.**
Mae gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen yn dda a rhagwelir agor yr ysgol newydd yn ystod tymor yr hydref 2016. Mae'r prosiect yn cyrraedd y cerrig milltir disgwyliedig ar gyfer y cyfnod yma.

**P5 Dalgylch Y Gader**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader.**
Mae'r Corff Llywodraethol Cysgodol wedi ei sefydlu, ac etholwyd Cadeirydd. Ni lwyddwyd i benodi Pennaeth ar gyfer y safle newydd yn ddiweddar, felly, mae'r adran Addysg yn gweithio'n agos gyda'r Corff Llywodraethol Cysgodol er mwyn targedu penaethiaid i ymgymryd â'r rôl. Y cam nesaf gyda'r prosiect yw creu rhaglen waith gynhwysfawr oholl agweddau sefydlu'r ysgol.

**P6 Glancegin**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen.**
Mae'r achos busnes wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, felly mae'r £35.11 miliwn yn ei le ar gyfer adeilad newydd Ysgol Glancegin. Mae staff o Wasanaeth Eiddo'r Cyngor wedi cwblhau'r gwaith arolwg safle, ac mae disgwyl y bydd y broses o benodi contractwr yn dechrau'n fuan. Disgwylir i'r gwaith adeiladu gychwyn yng ngwanwyn 2016 gydag adeilad newydd Ysgol Glancegin yn barod ar gyfer Medi 2017.

**P7 Dalgylch Y Berwyn**
**Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu Gydol Oes Cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn.**
Mae Rhybudd Statudol wedi ei ryddhau a chyfnod gwrthwynebu wedi ei gynnal dros yr haf. Cafodd y gwrthwynebiadau eu cyflwyno i'r Cabinet ar 15 Medi 2015, lle bu i'r cynnig gael ei gymeradwyo yn unfrydol. Yn ogystal, mae'r achos busnes wedi ei gwblhau ac mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r buddsoddiad angenrheidiol.

**P8 Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**
**Pwrpas y prosiect yma fydd trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.**
Mae llawer o waith wedi digwydd yn y misoedd diwethaf ar raglen waith yr adolygiad strategol ac mae'r prosiect yn perfformio yn unol a'r cerrig milltir a osodwyd. Mae nifer o sesiynau ymgysylltu wedi'u cynnal ar y model arfaethedig yn ddiweddar gydag amrediad o fudd-ddeiliad, yn cynnwys aelodau lleol, cymhorthion dosbarth, rhieni a staff mewnol y Cyngor. Yn ogystal, mae'r tîm wedi bod yn brysur yn llunio Strategaeth Hyfforddi ar gyfer meysydd Cynhwysiad ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr wedi cael ei datblygu gan gynnwys targedu arbenigeddau, uwch-sgilio a chreu pecynnau e-ddysgu penodol.

4.1.2 Y Cynghorydd Mair Rowlands
**P9 Sicrhau ystod o wasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd**
**Pwrpas y prosiect hwn yw darparu cefnogaeth ar gyfer grwpiau bregus o blant a phobl ifanc er mwyn eu galluogi i fyw yn annibynnol heb orfod bod yn ddibynnol ar wasanaethau statudol.**
Mae trafodaethau wedi digwydd gydag amryw o bartneriaid, yn fewnol ac yn allanol i'r Cyngor er mwyn ystyried yr agenda ymyrraeth gynnar/ataliol. Mae briff wedi'i lunio i ddiffinio gwaith y rhaglen, ac mae'r bwrdd rhaglen a thîm wedi'i sefydlu ac wedi datblygu'r sgôp a cherrig milltir. Mae'r trydydd sector a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bartneriaid allweddol yn y drafodaeth gan fod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran yr agenda ymyrraeth gynnar yn y sir. Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth a chynnal asesiad effaith o'r gweithgareddau a rhaglenni sydd eisoes yn bodoli yn y maes yn y maes wedi cychwyn, a bydd canlyniadau'r gwaith ar gael ddiwedd mis Tachwedd 2015. Mae'r Bwrdd hefyd wedi adnabod yr angen i dargedu grwp o bobl ifanc bregus gan ddarparu map clir o'r ddarpariaeth sydd ar gael ar eu cyfer, yn ogystal ag adnabod y bylchau.

**4.2 Materion eraill o bwys yn y maes Plant a Phobl Ifanc**

**4.2.1 Ail-fodelu Gwasanaeth Hamdden:** Mae angen ystyried y cyd-destun polisi ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden i'r dyfodol. Mae'r gwasanaeth wedi'i ddatblygu ar sail model sy'n anelu i ysbrydoli a chefnogi pobl Gwynedd i fyw'n iach trwy gynnig amrediad o becynnau ffitrwydd a byw'n iach. Mae sesiwn gweithdy penodol wedi'i drefnu gyda'r Cabinet i drafod rôl a chyfraniad y Gwasanaeth Hamdden i'r dyfodol, a hynny o fewn cyd-destun penderfyniadau Her Gwynedd ac adolygiad o'r Cynllun Strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**4.2.2 Rhiant Corfforaethol:** Mae'r Aelod Cabinet ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn awyddus i gryfhau a grymuso rôl y Cyngor yn y maes yma. Mae'n fwriad ail ymweld â'r strategaeth rhiant corfforaethol, gan roi addewidion clir yn eu lle. Ceir cydnabyddiaeth bod angen codi ymwybyddiaeth am yr agenda yma ar draws y Cyngor, ac mae'n fwriad cynnal sesiynau gyda rheolwyr adrannau ac aelodau'r Cabinet.

**4.3 Diogelu**

**D1Sicrhau perchnogaeth y Cyngor cyfan i'r maes diogelu**
**D2 Diogelu Plant a phobl ifanc**
**D3 Diogelu oedolion bregus**

Mae'r Cynghorydd Mair Rowlands yn cadeirio Panel Strategol Diogelu er mwyn monitro'r cynnydd mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol. Apwyntiwyd arweinwyr ar gyfer y tri phrosiect ac mae cerrig milltir a rhaglen waith wedi'u pennu.

**4.4 Y Gymraeg**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

**11 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg**

**Pwrpas y prosiect hwn yw hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned gan gynorthwyo trigolion i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith.**

Hyd yma mae cynnydd y prosiect yn unol â'r amserlen a'r cerrig milltir a osodwyd gyda grwpiau wedi eu hadnabod i gydweithio â hwy o fewn pedair cymuned, sef Dolgellau, Dyffryn Nantlle, Bangor a Phorthmadog.

Bydd y gwaith o gynnal yr asesiadau Fframwaith Gweithredu'n Lleol yn digwydd o fewn y cymunedau dros yr wythnosau nesaf, a bydd y rhain yn sail ar gyfer cynlluniau gweithredu'r cymunedau. Mae angen i ni gael tystiolaeth fod y prosiect hwn yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau'r Llywodraeth yn effeithiol a byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol.

**12 - Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus**

**Pwrpas y prosiect hwn yw creu diffiniad o weithle dwyieithog y byddai'r Cyngor ac wedi hynny, Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd a Môn yn ei fabwysiadu fel diffiniad safonol er mwyn sicrhau eglurder a safon gyson o wasanaethau cyhoeddus dwyieithog.**

Mae Grwp Gweithleoedd Hunaniaith wedi bod yn gweithio ar ddiffiniad o weithlu dwyieithog ac wedi cyhoeddi diffiniad drafft. Nodir y bydd hi'n dipyn o dasg cael cydsyniad llwyr ymysg y gwahanol sefydliadau ar ddiffiniad safonol ond rydym yn ffyddiog y byddwn yn cyflawni'r hyn yr ydym wedi ei nodi ar gyfer y flwyddyn.

Serch hynny mae'r Aelod Cabinet wedi herio a yw diffiniad y prosiect yn gywir gan mai'r gwir nod yw cyfarch sut y gellir hyrwyddo gallu trigolion Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol pan yn cysylltu â chyrff cyhoeddus yn y sir. O ganlyniad, mae'r arweinydd prosiect yn edrych ar hyn a dichon y byddwn yn cynnig ail eirio pan ddaw'r adroddiad nesaf ger bron y Cabinet.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni drwy'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol.

**13 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu gwaelodlin a mesur cynnydd yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gyda phobl ifanc.**
Mae cynnydd y prosiect yn unol â'r rhaglen waith a'r cerrig milltir sydd wedi eu cytuno, ond yma eto mae yna drafodaeth ar droed gan yr aelod cabinet i newid geiriad y prosiect er mwyn amlygu uchelgais gryf yn well. Bydd yn gwneud cynigion perthnasol i'r Cabinet maes o law.

Mae 12 Ysgol Uwchradd wedi cytuno i fod yn rhan o'r prosiect a bydd myfyrwyr o'r ysgolion hyn yn cwblhau holiaduron ynghylch y defnydd cymdeithasol y maent yn ei wneud o'r Gymraeg. Yn ogystal mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith wedi eu trefnu mewn nifer o glybiau ieuenctid.

**14 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd -**
**Byddwn yn:**
**i) Ystyried llwyddiant y Cyngor i normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir.**
**ii) Cyflawni gwaith ymchwil er mwyn canfod a chadarnhau i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu i drigolion y sir.**
Mae cynnydd y prosiect hyd yma'n unol â'r amserlen a'r cerrig milltir gyda briff drafft ar gyfer yr awdit wedi ei ddatblygu.

Mae'r aelod cabinet wedi bod yn tynnu sylw'r arweinydd prosiect at bwysigrwydd gofyn y cwestiynau iawn o fewn yr awdit a'r angen i ateb y cwestiynau hynny yn onest er mwyn cael darlun o'r gwir sefyllfa o fewn y Cyngor. Mae wedi gofyn i'r arweinydd prosiect sicrhau fod y gwaith yn mynd ddigon o dan y wyneb er mwyn adnabod y gwir sefyllfa fel ein bod yn gallu adnabod unrhyw fylchau neu broblemau sy'n bodoli ynghyd â datrysiadau, fel y gallwn roi sylw iddynt.

Cwestiynwyd hefyd a oedd yr amserlen ddigon heriol ac ystyrir hyn ymhellach gan yr Arweinydd Prosiect.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

**4.4 Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**
Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**C1 Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.**
Hyd yma mae cynnydd y prosiect yn unol â'r rhaglen waith a'r cerrig milltir sydd wedi eu cytuno.

Bu i'r Cabinet fabwysiadu Strategaeth Ffordd Gwynedd yn ffurfiol ar 14 Gorffennaf 2015. Yn ystod y ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol mae swyddog ychwanegol wedi ei phenodi (sydd wedi cychwyn ym mis Hydref) i weithio ar y prosiect a chytundeb wedi ei sicrhau i ryddhau tri uwch reolwr i'w hyfforddi i weithio ar adolygiad o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

Yn ogystal, mae nifer o sesiynau wedi eu cynnal gyda rheolwyr adrannol er mwyn sicrhau fod yna drafodaeth yn digwydd sy'n berthnasol i waith yr adran (gyda rhai aelodau cabinet wedi bod yn bresennol yn y rhain). Mae'r trafodaethau hefyd wedi bod yn fodd i sicrhau cytundeb ar sut i gyflwyno egwyddorion Ffordd Gwynedd ar draws yr adran.

Mae arwyddion cynnar yn dangos bod yr adolygiadau yn arwain at newidiadau a byddwn yn gallu adrodd ar hyn, a rhai o'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn asesu canlyniadau adolygiadau yn ystod Chwarter 3.

**C2 Rhaglen datblygu arweinwyr**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei le i sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson.**
Mae proffiliau personoliaeth 'Insight' wedi eu creu ar gyfer pob pennaeth adran/aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac aelodau'r Cabinet er mwyn adnabod anghenion datblygu ac mae cyfarfodydd adborth wedi eu cynnal ar gasgliadau'r proffiliau.

Mae yna fwriad i gynnal gwerthusiad cyfarwyddwyr a phenaethiaid ar sail trefn newydd ac i gynnal ymarferiad 360 (derbyn adborth oddi wrth aelodau o gylch gwaith uniongyrchol gweithiwr) yn ystod yr un cyfnod gyda'r canlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod gwerthuso nesaf yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn ogystal bydd adolygiad o anghenion datblygol aelodau'r Cabinet yn yr un cyfnod er mwyn darparu sail ar gyfer cynnal sesiynau hyfforddiant yn fuan yn 2016.

**C3 Ymgysylltu**
**Pwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**
Mae cynnydd y prosiect yn unol â'r rhaglen waith a'r cerrig milltir sydd wedi eu cytuno.

Erbyn hyn 'rydym wedi sefydlu trefn er mwyn logio holl weithgareddau ymgysylltu'r Cyngor er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu. Yn ogystal, mae gwaith wedi ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth adrannau o'r gefnogaeth sydd ar gael i hwyluso gweithgareddau ymgysylltu ac mae copi o'r Llawlyfr Ymgysylltu (sy'n cynnwys canllawiau ac ymarfer da) wedi ei ddosbarthu i aelodau'r Grwp Rheoli.

Mae trefniadau Her Gwynedd i ymgysylltu ar y toriadau yn mynd yn ei flaen gyda gweithgareddau megis ymarferiad ar-lein i'r cyhoedd gael mewnbwn ynghylch y toriadau, sesiynau galw heibio cyhoeddus a fforymau cyhoeddus gyda'r nos a hyrwyddo cyffredinol trwy Newyddion Gwynedd wedi eu trefnu ac yn digwydd ar hyn o bryd.

**C4 Gweithredu cyfundrefn berfformiad**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd datblygu a gweithredu cyfundrefn berfformiad newydd. Bydd y gyfundrefn yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, a defnyddir y mesurau hynny i wella perfformiad. Bydd y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.**

Mae sesiynau rheolwyr adrannol wedi eu cynnal hefo mwyafrif yr adrannau er mwyn ceisio sicrhau fod unedau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd ac yn defnyddio'r mesurau i wella.

Gwelwyd peth llithriad yn yr amserlen wreiddiol ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn gyda sesiynau rheolwyr yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Oedolion Iechyd a Llesiant eto i'w cynnal a'r Adran Addysg yn gweithredu trefniadau ychydig yn wahanol (ond yn dilyn yr un egwyddorion). Ni ragwelir problem cyflawni'r hyn yr ydym wedi ei nodi ar gyfer y flwyddyn ond bydd angen sicrhau dilyniant i'r sesiynau gwreiddiol hyn er mwyn sicrhau ein bod yn llwyddo i newid ymddygiad o fewn gwasanaethau.

Mae'r trefniadau adrodd ar brosiectau a mesurau yr aelodau Cabinet wedi eu cyflwyno ers dechrau Medi a 'rydym wedi dod i ddiwedd y cylch cyntaf o adroddiadau. Yn adeiladu ar hyn byddwn yn gosod allan y drefn berfformiad yma ar bapur ac yn hyfforddi holl reolwyr ar y drefn yn ystod y misoedd i ddod.

**C5 Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth**

**Pwrpas y prosiect hwn yw ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth i hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor ac ar gost is na'r sianeli traddodiadol.**

Mae'n bosibl bydd rhywfaint o lithriad yn erbyn yr amserlen a'r cerrig milltir gwreiddiol oedd wedi eu cytuno ar gyfer y prosiect oherwydd fod yna gwestiwn ynglŷn â'r sylfaen dechnegol i'w defnyddio.

Mae'r aelod Cabinet wedi rhoi ystyriaeth i hyn ac wedi comisiynu ychydig mwy o waith cyn dod ag argymhelliad ger bron y Cabinet.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

**C6 Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)**
**Pwrpas y prosiect hwn yw llunio Strategaeth Technoleg Gwybodaeth fydd yn gosod allan y cyfeiriad am y cyfnod i ddod ar gyfer uchafu'r budd a geir o ddefnyddio'r arf yma ynghyd â'r rhaglen waith ar gyfer gwireddu'r strategaeth honno.**
Mae cynnydd y prosiect yn unol â'r rhaglen waith a'r cerrig milltir sydd wedi eu cytuno.

Mae drafft o'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth eisoes wedi ei gyflwyno i Grwp Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor ac i'r Aelod Cabinet ar 6 Hydref 2015. Yn dilyn hyn 'roedd o'r farn fod angen addasu'r strategaeth er mwyn amlygu beth yw'r prif faterion sydd angen sylw, sut i gyfarch y materion hynny a'r adnoddau fydd eu hangen gan ofyn am adroddiad yn ôl mor fuan â sy'n bosibl.

**C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu system EDRMS fydd yn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol.**
Bu rhywfaint o lithriad yn yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r system EDRMS i'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol o ganlyniad i'r ffaith fod y broses caffael hefo'r cyflenwyr wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Erbyn hyn disgwylir y bydd y system yn cael ei chyflwyno yn Chwarter 4 yn hytrach na Chwarter 3 fel y bwriadwyd.

Nid yw'r llithriad uchod fodd bynnag yn debygol o effeithio ar amserlen y prosiect yn ei gyfanrwydd a disgwylir y bydd y gwaith o gyflwyno'r system i'r Adran Economi a Chymuned yn mynd yn ei flaen fel y cynlluniwyd yn ystod Chwarter 4 2015-16 a Chwarter 1 2016-17.

**C8 Llywodraethu gwybodaeth**
**Pwrpas y prosiect hwn yw adolygu ein trefniadau hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda gwybodaeth bersonol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn effeithiol a'n bod yn hyderus fod gwybodaeth bersonol pobl Gwynedd yn gwbl ddiogel yn ein dwylo.**
Dim ond megis cychwyn y mae gwaith y prosiect hwn felly ychydig sydd i'w adrodd ar y cynnydd ar hyn o bryd.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

Mae rhywfaint o waith paratoadol wedi digwydd gan gynnwys datblygu adnodd e-ddysgu ar ddiogelu data, a chafwyd cytundeb gyda'r archwilwyr mewnol i wirio cydymffurfiaeth diogelwch gwybodaeth fel rhan o'r drefn bresennol o gynnal archwiliadau.

Yn ogystal, mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth o ran caffael meddalwedd fydd yn ein galluogi i roi labeli diogelwch ar e-byst y Cyngor.

**4.5 Cynllunio Ariannol**
Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**CA1 Gwireddu arbedion**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod trefniadau yn eu lle er mwyn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd o £13.6m sydd eisoes wedi eu cytuno fel rhan o'r gyfundrefn arbedion ynghyd ag unrhyw arbedion pellach a adnabyddir.**
Nodir, ar y cyfan, fod yr aelodau Cabinet i'w gweld yn cymryd perchnogaeth o sicrhau gwireddu'r cynlluniau arbedion sy'n berthnasol i'w meysydd.

Yn amlwg, mae gan yr Aelod Cabinet Adnoddau rôl drosolwg o sicrhau fod yr arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwireddu ac mae ganddo drefniadau ar gyfer gwneud hynny. Nodir fod achosion ymhle mae pryderon wedi eu hamlygu lle mae'r Aelod Cabinet Adnoddau yn gadw golwg ar y sefyllfa a bydd yn adrodd yn ôl os cyfyd problem go iawn.

Rhagwelir llithriad o rhwng tua £400k a £600k yng nghynlluniau arbedion yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn erbyn targed o £1,855,652. Er mwyn ceisio cyfarch y bwlch ariannol hwn mae'r Pennaeth a'r Aelod Cabinet wedi bod yn gweithio ar gynlluniau amgen er mwyn gwireddu'r arbedion ac felly, er y llithriad yn yr amserlen ar gyfer cyflawni'r arbedion eleni, mae'r sefyllfa ar y cyfan o fewn rheolaeth.

**CA2 Cytundeb Canlyniadau**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod y Cyngor yn gallu hawlio'r swm llawn o £1.3m sydd ar gael yn 2014-15 ac 2015-16 am gyflawni canlyniadau sydd wedi eu cytuno gyda'r Llywodraeth.**
Mae cynnydd yn unol â'r rhaglen waith ac adroddiad ar berfformiad 2014-15 wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn hawlio'r swm llawn ar gyfer 2014-15.

**CA3 Toriadau**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu y toriadau y gellir eu gwireddu er mwyn cau'r bwlch ariannol fydd ar ôl yn ystod cyfnod Cynllun Strategol 2015-17 wedi i ni gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd.**
Fel rhan o'r prosiect fe adnabuwyd dewisiadau posibl o doriadau i wasanaethau sy'n gyfwerth â mwy na £12 miliwn gyda'r bwriad o gytuno ar restr derfynol o doriadau gwerth £7 miliwn. Mae gwybodaeth ynghylch y trefniadau ymgysylltu eisoes wedi ei nodi yn yr adroddiad ym mhrosiect C3 uchod.

**CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth**
**Pwrpas y prosiect yma yw darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau maint y toriadau fydd eu hangen yn ogystal ag ymchwilio i feysydd lle mae'n bosib newid y model presennol o ddarparu gwasanaeth gan felly wneud arbedion.**
Mae cynnydd y prosiect yn unol â'r rhaglen waith a'r cerrig milltir sydd wedi eu hadnabod ar gyfer y prosiect.

Gwneir gwaith ar Achos Strategol Model Darparu Gofal cyn ei gyflwyno ar gyfer ystyriaeth aelodau'r Cabinet. Yn ogystal, bydd asesiadau agoriadol o effeithlonrwydd pellach yn cael eu cyflwyno i'r aelod Cabinet a bydd yn adrodd yn ôl ar y trafodaethau hynny pan yn cyflwyno'r adroddiad perfformiad nesaf.

**5.0 Mesurau**

**5.1 Gwaith datblygol -** Mae'r Unedau gwaith ar draws y Cyngor yn y broses o ail edrych ar ddiffinio eu pwrpas drwy lygaid ein dinasyddion fel bod modd cadw'r ffocws ar ein cwsmeriaid yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd. Ar yr un pryd maent wedi bod yn edrych ar sicrhau bod y pethau cywir yn cael eu mesur. Yn sicr mae gwaith pellach i'w wneud o ran miniogi a chadarnhau y pwrpasau a'r mesurau cyflawni ond rhagwelir y byddwn mewn lle i allu cadarnhau'r rhai terfynol yn fuan.

Rhestrir isod y mesurau y dylid tynnu sylw yn benodol atynt er mwyn amlygu'r perfformiad. Cyflwynir rhestr gyflawn o'r mesurau sy'n berthnasol i'r meysydd a drafodir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 1.

**5.1 Plant a Phobl Ifanc**

Y Cynghorydd Gareth Thomas

**Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd fel y penderfynir gan asesiadau athrawon**

Mae'r perfformiad yn uwch na meincnod disgwyliedig Cymru ers 2010 ac yn sylweddol uwch na'r ffigwr cenedlaethol am y pum mlynedd diwethaf. Roedd perfformiad Gwynedd ar 89.1% yn 2014 o'i gymharu â safle Cymru a oedd yn 81.0%. Mae Gwynedd wedi perfformio orau o holl awdurdodau Cymru am y tair blynedd diwethaf.

**Canran presenoldeb yn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd**

Mae presenoldeb yn ein hysgolion uwchradd wedi cynyddu ymhellach yn 2014 (94.2%) ar ôl cynnydd sylweddol yn 2013(93.4%). Mae'r ffigyrau hyn yn uwch na'r ffigyrau cenedlaethol. Bydd manylion pellach ar ffigyrau 2015 i'w cael yn yr adroddiad nesaf.

**Canran y disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol a gyflawnodd trothwy lefel 2+ yn cynnwys gradd A-C* TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg**

Mae trothwy lefel 2+ wedi cynyddu o 59% i 61% yn 2014, sydd yn gynnydd da iawn o'i gymharu a'r ffigwr Cenedlaethol (55.4%). Wrth edrych ar dueddiadau blynyddol, gellir gweld cynnydd blynyddol ar y mesur yma, lle roedd Gwynedd yn perfformio ar 52.1% yn 2010 o'i gymharu a'r ffigwr o 61% ar gyfer 2014. Rydym yn disgwyl bydd y ffigwr yma wedi codi eto ar gyfer 2015.

Y Cynghorydd Mair Rowlands
**Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol a'r rheoliadau**
Mae gwelliant cyson mewn perfformiad dros y 3 blynedd diwethaf. Gwelwyd cynnydd o 13% yn y nifer o ymweliadau statudol a gynhaliwyd yn 2014-15 o'i gymharu a 2013-14. Mae'r Adran yn ymdrechu i wella'r perfformiad a chodi'r targed i 90% ar gyfer 2015-16.

## 6.0 Casgliad

6.1 Gwelir bod gwaith ar y prosiectau strategol yn symud ymlaen fel ag a gynlluniwyd, gyda cherrig milltir wedi eu gosod a chynnydd yn cael ei fesur yn eu herbyn. Rhoddir sylw hefyd i addasu prosiect lle gwelwyd bod angen cynyddu'r pwyslais ar gael y gorau i bobl Gwynedd.

6.2 Mae dechrau cadarn wedi bod i'r trefniadau rheoli perfformiad newydd, gyda swyddogion ac aelodau Cabinet yn croesawu'r eglurder sydd ynghylch atebolrwydd.

6.3 Mae mesurau'r timau gwasanaeth yn perfformio'n dda er nad yw perfformiad rhai mesurau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae perfformiad yn cael ei reoli lle adnabyddir nad yw'r gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd.

## 7.0 Argymhelliad

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad.

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk